

## **Contraceptive coil (Mirena/Copper coil) insertion at the time of Caesarean Birth**

Information for patients

The aim of this information sheet is to help answer some of the questions you may have if you are considering contraceptive coil insertion at the time of caesarean birth.


### **It explains:**

- What a contraception coil is
- The different options of contraceptive coil
- The advantages and the disadvantages are of having a contraceptive coil
- The benefit and risk of the contraceptive coil inserted at the time of caesarean birth
- Who can't have the contraceptive coil
- Follow up after having a contraceptive coil

### **What is a contraceptive coil?**

A contraceptive coil is a form of long-acting reversible contraception. It is a small device that fits inside your womb.

Contraceptives coils are safe and reliable. If you are having a caesarean birth, we can place one inside the womb during your operation. The contraceptive coil is immediately effective, so you won't have to worry about contraception or pregnancy risk after having your baby.



### **What are the different options of contraceptive coils inserted at the time of caesarean birth?**

There are many different contraceptive coils, but they can be divided into two main types

- A non-hormonal (**copper**) coil. This usually lasts for 10 years and has no hormonal side effects.
- A hormone-containing (**Mirena**) coil. This last for 5 years and can also treat heavy periods.

The one which is right for you, depends on the additional benefits or potential side effects. You can find out more information by discussing with your doctor or midwife.

## How is a contraceptive coil inserted or removed?

The contraceptive coil can be inserted at the time of caesarean birth. This does not significantly increase the amount of time taken to perform a caesarean birth, or the risks associated with having a caesarean birth. There are threads attached to the contraceptive coil which hang through the cervix (opening of the uterus). These threads are cut so that they hang at the top of your vagina. As your uterus contracts and returns to its pre-pregnancy size after having your baby (this takes about six weeks), you may need to have the threads cut further. This can be done at your GP surgery during your postnatal review. If you want the contraceptive coil removed or replaced, a doctor, nurse or midwife can remove it by pulling gently on the threads.

## Advantages of contraceptive coils

- The hormonal coil (**Mirena**) can be used specifically to treat heavy periods.
- Effective from the moment it's inserted.
- You can breastfeed safely.
- Its effectiveness is not affected by other medicines.
- Your fertility returns to normal as soon as the coil is removed

## Disadvantages of contraceptive coils

- Your periods may change in a way that isn't acceptable to you
- Contraceptive coil does not protect you against sexually transmitted infections.
- Some people may get side effects like acne, headaches or breast tenderness which tend to improve after the first few months.
- Some people develop small fluid-filled cysts on their ovaries. These aren't dangerous and usually don't need treatment.
- The contraceptive coils are very effective in preventing pregnancy, if pregnancy does occur with the contraceptive coil there's a risk that the pregnancy may develop outside the womb. This is called an ectopic pregnancy and may be life threatening. Please inform your GP if you fall pregnant with a coil to rule out an ectopic pregnancy.


## What are the benefits of having the contraceptive coil at your caesarean birth?

- Inserting it is a very safe procedure
- It's painless as you will already have an anaesthetic for the caesarean birth
- It works as contraception immediately for five to 10 years
- It's convenient – you will not need to return to have it inserted at a later date


## What are the risks of the contraceptive coil inserted at the time of caesarean birth?

The following risks are slightly higher in women having the contraceptive coil inserted at the time of caesarean birth:

**Long threads** - As your uterus contracts and returns to its pre-pregnancy size, you may notice the threads protruding out of the vagina – if this happens the threads can be easily trimmed by a doctor or nurse. If the threads are long, you need to be careful not to pull the coil out.



**Lost threads** - the threads of the contraceptive coil normal hang out of the cervix and into the top of the vagina. This is so that the coil can easily be removed when required. However, after having your baby these threads can sometimes settle into the womb. This doesn't reduce the efficacy of the coil but can mean removal is a bit more difficult.



**Expulsion/falling out** - There is a one in 20 chance of the contraceptive coil coming out/ being expelled from the womb after insertion in women having the coil inserted during a planned caesarean than when not pregnant. The chance of expulsion is higher if the coil is inserted in women who have had a caesarean birth in labour. This is probably because the cervix (neck of the womb) is open, making it more likely for the contraceptive coil to fall out.

**The following risks are present with the same likelihood whether the coil is inserted at the time of caesarean birth or not:**

**Injury/trauma** - There is less than one in 1000 chance of injury to the womb (perforation) at the time of insertion.

**Infection** - There is a less than one in 100 chance of small risk of infection in the first few weeks following insertion of the device.

**Vaginal bleeding** - There is no greater risk of heavy bleeding soon after birth because of inserting a contraceptive coil at the time of caesarean birth.

## **Who cannot have the contraceptive coil inserted at the time of caesarean birth?**

- If your waters have broken for  $\geq 24$  hours before your caesarean birth
- Showing signs of infection before your caesarean birth
- Have an untreated sexually transmitted infection or pelvic infection before your caesarean birth
- Have symptoms of an untreated sexually transmitted infection or pelvic infection
- Have structural problems with your uterus or cervix e.g. heart shaped uterus

## **What is the follow up after insertion of contraceptive coil after caesarean birth?**

You will be offered a check-up six weeks – 12 weeks after your caesarean birth and coil insertion at your GP or the sexual health clinic. At this point you coil threads can be trimmed. If threads are not visible an ultrasound scan will be offered to you to confirm that the coil is still in place.

## **Long-Acting Alternatives to contraceptive coils**

- Contraceptive implants (Explanon) - just under skin in upper arm; lasts for 3 yr.
- Contraceptive injection - 3 monthly injections
- Male vasectomy - (1:2000 lifetime failure risk) safer and more effective than female sterilisation
- Female sterilisation - (1:200 lifetime failure risk) safe and effective.

**If you have any questions or are unsure about any aspect of the treatment proposed, please do not hesitate to speak to the doctor or midwife caring for you.**

## **Gosod coil atal cenhedlu (coil Mirena/coil Copr) ar adeg genedigaeth cesaraidd** Gwybodaeth i gleifion

Nod y daflen wybodaeth hon yw helpu i ateb rhai o'r cwestiynau a allai fod gennych os ydych yn ystyried gosod coil atal cenhedlu ar adeg genedigaeth cesaraidd.


### **Mae'n esbonio:**

- Beth yw coil atal cenhedlu
- Y gwahanol opsiynau o goil atal cenhedlu
- Manteision ac anfanteision cael coil atal cenhedlu
- Buddion a risgiau gosod coil atal cenhedlu ar adeg genedigaeth cesaraidd
- Pwy sydd ddim yn gallu cael coil atal cenhedlu
- Gofal dilynol ar ôl cael coil atal cenhedlu
- 

### **Beth yw coil atal cenhedlu?**

Mae coil atal cenhedlu yn ddull atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor. Mae'n ddyfais fach sy'n ffitio y tu mewn i'r groth.

Mae coiliau atal cenhedlu yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Os ydych yn cael genedigaeth cesaraidd, gallwn osod coil yn eich croth yn ystod y llawdriniaeth. Mae'r coil atal cenhedlu yn effeithiol ar unwaith, felly ni fydd rhaid i chi boeni am ddulliau atal cenhedlu neu risg beichiogrwydd ar ôl cael eich babi.



### **Y gwahanol opsiynau o goil atal cenhedlu y gellir eu gosod ar adeg genedigaeth cesaraidd**

Mae yna lawer o goiliau atal cenhedlu gwahanol, ond gellir eu rhannu yn ddau brif fath

- Coil heb hormonau (copr). Mae hwn fel arfer yn para am 10 mlynedd ac nid oes iddo unrhyw sgil-ffeithiau hormonaidd.
- Coil sy'n cynnwys hormonau (Mirena). Mae hwn fel arfer yn para am 5 mlynedd a gall hefyd drin misglwyf trwm.

Mae pa un sy'n iawn i chi yn dibynnu ar y buddion ychwanegol neu'r sgil-ffeithiau posibl. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy drafod â'ch meddyg neu fydwraig.

## **Sut mae coil atal cenhedlu yn cael ei osod, a sut mae'n cael ei dynnu oddi yno**

Gellir gosod coil atal cenhedlu ar adeg genedigaeth cesaraidd. Nid yw hyn yn cynyddu'n sylweddol yr amser a gymerir i roi genedigaeth cesaraidd, na'r risgiau sy'n gysylltiedig â genedigaeth cesaraidd. Mae edafedd ynghlwm wrth y coil atal cenhedlu sy'n hongian drwy'r serfics (ceg y groth).

Mae'r edafedd hyn yn cael eu torri fel eu bod yn hongian mor bell â phen eich fagina. Wrth i'ch groth gyfangu a dychwelyd i'w maint cyn beichiogrwydd ar ôl cael eich babi (mae hyn yn cymryd tua chwe wythnos), efallai y bydd angen torri'r edafedd ymhellach. Gellir gwneud hyn yn eich meddygfa yn ystod eich adolygiad ôl-enedigol. Os ydych am i'r coil atal cenhedlu gael ei dynnu oddi yno neu ei ailosod, gall meddyg, nyrs neu fydwraig wneud hyn drwy dynnu'r edafedd yn ysgafn.

### **Manteision coil atal cenhedlu**

- Gellir defnyddio'r coil hormonaidd (Mirena) yn benodol i drin misglwyf trwm.
- Mae'n effeithiol o'r eiliad y mae'n cael ei fewnosod.
- Gallwch fwydo ar y fron yn ddiogel.
- Nid yw meddyginiaethau eraill yn effeithio ar ei effeithiolrwydd.
- Mae eich ffrwythlondeb yn dychwelyd i normal cyn gynted ag y caiff y coil ei dynnu oddi yno

### **Anfanteision coil atal cenhedlu**

- Gall eich misglwyf newid mewn ffordd nad yw'n dderbyniol i chi
- Nid yw coil atal cenhedlu yn eich amddiffyn rhag heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.
- Gall rhai pobl gael sgil-effeithiau fel acne, cur pen neu dynerwch y fron sy'n tueddu i wella ar ôl y misoedd cyntaf.
- Mae rhai pobl yn datblygu codenni bach llawn hylif ar eu hofariau. Nid yw'r rhain yn beryglus ac fel arfer nid oes angen triniaeth arnynt.
- Mae'r coiliau atal cenhedlu yn effeithiol iawn wrth atal beichiogrwydd. Os yw beichiogrwydd yn digwydd gyda'r coil atal cenhedlu, mae risg y gallai'r beichiogrwydd ddatblygu y tu allan i'r groth. Gelwir hyn yn feichiogrwydd ectopig a gall fygwth bywyd. Rhowch wybod i'ch meddyg teulu os byddwch yn mynd yn feichiog gyda choil er mwyn gallu diystyru beichiogrwydd ectopig.


### **Buddion gosod coil atal cenhedlu ar adeg genedogaeth cesaraidd**

- Mae ei osod yn weithdrefn ddiogel iawn
- Mae'n ddi-boen gan y byddwch eisoes yn cael anesthetig ar gyfer yr enedigaeth cesaraidd
- Mae'n gweithio fel dull atal cenhedlu ar unwaith ac yn para am bump i 10 mlynedd
- Mae'n gyfleus – ni fydd angen i chi dychwelyd i gael ei fewnosod yn ddiweddarach


### **Risgiau gosod coil atal cenhedlu ar adeg genedigaeth cesaraidd?**

Mae'r risgiau canlynol ychydig yn uwch mewn merched sy'n cael y coil atal cenhedlu wedi'i osod ar adeg genedigaeth cesaraidd:

**Edafedd hir** - Wrth i'ch croth gyfangu a dychwelyd i'w maint cyn beichiogrwydd, efallai y byddwch yn sylwi ar yr edafedd yn ymwithio allan o'r fagina - os bydd hyn yn digwydd gall meddyg neu nyrs docio'r edafedd yn hawdd. Os yw'r edafedd yn hir, mae angen i chi fod yn ofalus i beidio â thynnu'r coil allan.



**Edafedd yn mynd ar goll** - mae edafedd y coil atal cenhedlu fel arfer yn hongian allan o'r serfics ac i mewn i ben y fagina. Mae hyn fel y gellir tynnu'r coil yn hawdd pan fo angen. Fodd bynnag, ar ôl cael eich babi, weithiau gall yr edafedd hyn setlo i'r groth. Nid yw hyn yn lleihau effeithiolrwydd y coil ond gall olygu ei fod ychydig yn anoddach ei dynnu oddi yno.



**Ymwithiad/cwmpo allan** - Mae un siawns mewn 20 y bydd y coil atal cenhedlu yn dod allan/yn cael ei ymwithio o'r groth ar ôl gosod y coil mewn merched yn ystod genedigaeth cesaraidd wedi'i gynllunio, na phan nad yw'n feichiog. Mae'r siawns o ymwithiad yn uwch os gosodir y coil mewn merched sydd wedi cael genedigaeth cesaraidd wrth esgor. Mae'n debyg bod hyn oherwydd bod ceg y groth yn agored, gan ei gwneud yn fwy tebygol i'r coil atal cenhedlu gwmpo allan.

**Mae'r risgiau canlynol yn bresennol gyda'r un tebygolrwydd p'un a yw'r coil yn cael ei osod ar adeg genedigaeth cesaraidd ai peidio:**

**Anaf/trawma** - Mae llai nag un siawns mewn 1000 o anaf i'r groth (tylliad) ar yr adeg gosod.

**Haint** - Mae llai nag un siawns mewn 100 o risg fach o haint yn yr ychydig wythnosau cyntaf ar ôl gosod y ddyfais.

**Gwaedu o'r fagina** - Nid oes mwy o risg o waedu trwm yn fuan ar ôl genedigaeth o ganlyniad i osod coil atal cenhedlu ar adeg genedigaeth cesaraidd.

## **Pwy sydd ddim yn gallu cael coil atal cenhedlu wedi'i osod ar adeg genedigaeth cesaraidd?**

- Os yw eich dŵr wedi torri am  $\geq 24$  awr cyn yr enedigaeth cesaraidd
- Os ydych yn dangos arwyddion o haint cyn yr enedigaeth cesaraidd
- Os oes gennych haint a drosglwyddir yn rhywiol sydd heb ei drin neu haint pelfig
- Bod â symptomau haint a drosglwyddir yn rhywiol heb ei drin neu haint pelfig cyn neu yn ystod y cyfnod esgor
- Os oes gennych broblemau strwythurol gyda'ch croth neu serfics e.e. groth siâp calon

## **Beth yw'r gofal dilynol ar ôl gosod coil atal cenhedlu ar adeg genedigaeth cesaraidd?**

Byddwch yn cael cynnig archwiliad rhwng chwe wythnos a 12 wythnos ar ôl eich genedigaeth Cesaraidd a gosod coil, a hynny gan eich meddyg teulu neu'r clinig iechyd rhywiol. Ar y pwynt hwn gallir tocio edafedd y coil. Os nad yw'r edafedd i'w gweld, cynigir sgan uwchsain i chi i gadarnhau bod y coil yn dal yn ei le.

### **Opsiynau Hirweithredol eraill yn lle coiliau atal cenhedlu**

- Mewnblaniadau atal cenhedlu (Explanon) - o dan y croen ym mhen uchaf y fraich; yn para am 3 blynedd.
- Pigiad atal cenhedlu - pigiad pob 3 mis
- Fasectomi gwrywaidd - (risg o fethiant oes o 1:2000) yn fwy diogel ac yn fwy effeithiol na sterileiddio benywaidd
- Sterileiddio merched - (risg o fethiant oes o 1:200) yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw agwedd ar y driniaeth a gynigir, mae croeso i chi siarad â'r meddyg neu'r fydwraig sy'n gofalu amdanoch.**